# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 27 Tachwedd 2023

Amser: 14.02 - 15.36

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/13555

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jack Sargeant AS (Cadeirydd)<br>Rhys ab Owen AS<br>Joel James AS<br>Peredur Owen Griffiths AS<br>Buffy Williams AS<br>Jayne Bryant AS |
| Tystion: | Ffion Fairclough, Aelod Senedd Ieuenctid Cymru, Senedd Ieuenctid Cymru<br>Kasia Tomsa, Aelod Senedd Ieuenctid Cymru, Senedd Ieuenctid Cymru<br>Elin Hargrave, Senedd Education and Youth Engagement<br>Bethan Roberts, Senedd Education and Youth Engagement |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Mared Llwyd (Ail Glerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc)<br>Masudah Ali (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 P-06-1264 Gwarantu cludiant ysgol ar gyfer holl ddisgyblion ysgolion cyfun

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ffion Fairclough ASIC - Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru dros Bontypridd, Kasia Tomsa ASIC - Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru dros Flaenau Gwent, Elin Hargrave - Swyddog Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd a Bethan Roberts - Swyddog Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd.

## 3 P-06-1343 Darparwch drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bob disgybl ysgol uwchradd

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ffion Fairclough ASIC - Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru dros Bontypridd, Kasia Tomsa ASIC - Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru dros Flaenau Gwent, Elin Hargrave - Swyddog Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd a Bethan Roberts - Swyddog Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd.

## 4 P-06-1346 Darparu trafnidiaeth gyhoeddus am ddim a hygyrch i'r rhai o dan 18 oed yng Nghymru er mwyn lleihau allyriadau carbon a hybu twf

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ffion Fairclough ASIC - Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru dros Bontypridd, Kasia Tomsa ASIC - Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru dros Flaenau Gwent, Elin Hargrave - Swyddog Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd a Bethan Roberts - Swyddog Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd.

## 5 Deisebau newydd

### 5.1 P-06-1361 Dylid amddiffyn gweithwyr asiantaeth yn y GIG

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu’n ôl at y Gweinidog i ofyn a ellir gwneud unrhyw newidiadau i’r cod ymarfer er mwyn diogelu staff asiantaeth yn well.

Yn ysgrifenedig i'r Gweinidog cytunodd y Pwyllgor y byddai'n cau'r ddeiseb, yn diolch i'r deisebydd a hefyd yn cyfarwyddo'r deisebydd i gysylltu â'r Ombwdsmon, system gwynion y GIG a'u Haelodau lleol o’r Senedd i godi'r mater hwn.

### 5.2 P-06-1371 Dylid ailagor y safle rheilffordd yn Nantyderi, Goytre Fawr, i'n cynnwys ni ym Metro De Cymru.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu’n ôl at Lywodraeth y DU i dynnu sylw at y ddeiseb ac i ofyn a oes unrhyw beth arall y gellir ei wneud o safbwynt Llywodraeth y DU. Wrth ysgrifennu at Lywodraeth y DU, cytunodd y Pwyllgor i ddiolch i’r deisebydd a chau’r ddeiseb.

### 5.3 P-06-1372 Achub ein gwasanaeth bysiau hyblyg, Bwcabus

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb wrth ystyried y sesiwn dystiolaeth yn ymwneud â’r deisebau trafnidiaeth eraill. Cytunodd yr Aelodau i gynnwys y ddeiseb hon fel rhan o gynllun ar gyfer trafodaeth bwrdd crwn ehangach gyda'r diwydiant bysiau i edrych ar drafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau bysiau lleol.

### 5.4 P-06-1374 Dylai tirfeddiannwyr Cymru – yn yr un modd â Lloegr – allu caniatáu 60 diwrnod y flwyddyn o wersylla mewn pebyll a faniau

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu yn ôl at y Dirprwy Weinidog i ofyn rhagor o gwestiynau a godwyd gan y deisebydd, gan gynnwys pryd y bydd canlyniad yr ymgynghoriad ar ddatblygiadau a ganiateir yn cael ei gyhoeddi.

### 5.5 P-06-1376 Llywodraeth Cymru i roi’r gorau i daliadau peilot incwm sylfaenol i blant ar eu pen eu hunain sy’n ceisio lloches

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a daeth i'r casgliad bod Aelodau eisoes wedi mynegi eu barn yn glir ar fater Incwm Sylfaenol Cyffredinol yn eu hadroddiad Cynllun Peilot UBI i Gymru. Cytunodd y Pwyllgor felly na ellid cymryd unrhyw gamau eraill a chytunodd i gau’r ddeiseb.

# 6 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

## 6.1 P-06-1184 Dylid gwahardd ar unwaith y defnydd o blwm gwenwynig yn holl ffrwydron Cymru ... mae plwm yn lladd ein bywyd gwyllt!

Datganodd Joel James AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n aelod o Gymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar blwm mewn ffrwydron o dan broses Reach y DU. Cytunodd i aros am gasgliad yr ymgynghoriad pellach ar y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol drafft cyn cymryd camau pellach.

## 6.2 P-06-1209 Dylid creu rhestr o bob gofalwr di-dâl yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu'n ôl at y Dirprwy Weinidog er mwyn cael eglurhad ynghylch y datganiad am wirio statws gofalwyr di-dâl.

## 6.3 P-06-1337 Prynu Sycharth, Cartref Owain Glyndwr, er mwyn cadw'r safle yn saff i genedlaethau'r dyfodol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a mynegodd ei siom ynghylch yr ymateb gan Gyngor Sir Powys i lythyr y Pwyllgor yn gofyn am arwyddion cyfeiriadol at y safle. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad, fodd bynnag, nad oedd llawer mwy y gall y Pwyllgor ei wneud a chytunwyd i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd am gyflwyno'r ddeiseb.

Wrth gau'r ddeiseb cytunodd y Pwyllgor hefyd y byddai'n ysgrifennu yn ôl at Gyngor Sir Powys i fynegi ei siom a'i rwystredigaeth ynghylch yr ymateb a gafwyd.

# 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Trafod y dystiolaeth - P-06-1264 Gwarantu cludiant ysgol ar gyfer holl ddisgyblion ysgolion cyfun / P-06-1343 Darparwch drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bob disgybl ysgol uwchradd / P-06-1346 Darparu trafnidiaeth gyhoeddus am ddim a hygyrch i'r rhai o dan 18 oed yng Nghymru er mwyn lleihau allyriadau carbon a hybu twf

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd a chytunodd y byddai'n cynnal trafodaeth bwrdd crwn undydd yn y flwyddyn newydd gyda rhanddeiliaid perthnasol ynghylch gwasanaethau bws.